

"Dwi'n athro cyflenwi, a dwi'n teimlo nad oes gen i ddewis ond gweithio trwy asiantaeth. Oes gennych chi gyngor i mi?"

Er mwyn chwilio am waith cyflenwi mae'n syniad da i gysylltu'n uniongyrchol gydag ysgolion a/neu golegau'r ardal. Gallwch ofyn am apwyntiad i gyflwyno'ch hun i'r Pennaeth neu anfonwch eich manylion, ar ffurf llythyr a CV (gweler Llyfryn UCAC "[Chwilio am Swydd](#)" os oes angen cyngor arnoch ar sut i lunio CV)

Os ydych yn teimlo nad oes gennych ddewis ond gweithio trwy asiantaeth, cyn ymrwymo'ch hun i gytundeb, holwch gwestiynau pwrpasol iddynt a chymharwch delerau asiantaethau amrywiol yn ofalus – mae gan rai asiantaethau gwell telerau na'i gilydd.

Dyma rai cwestiynau posib:

- A oes modd i chi ddod o hyd i gyfnod o waith hirdymor i mi?
- Faint o gyflog a fyddaf yn ei dderbyn am ddiwrnod o waith (cyn/ar ôl tynnu cyfraniad Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol)?
- A fyddaf yn talu canran o'm tâl i gynllun pensiwn?
- A fyddwch chi'n talu cyfraniad cyflogwr i gynllun pensiwn, a beth fydd y telerau?
- Beth fydd yn digwydd o ran tâl os byddaf yn sâl?
- A ydych yn darparu Hyfforddiant Mewn Swydd?

Mae'r gyfraith yn rhoi rhywfaint o hawliau i bobl sy'n cael gwaith drwy asiantaeth os ydych chi wedi eich cyflogi i weithio yn yr un ysgol neu goleg am o leiaf 12 wythnos.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth am y telerau neu'r cytundeb y mae asiantaeth yn ei gynnig i chi, cysylltwch ag UCAC am gyngor – yn ddelfrydol, **cyn** arwyddo unrhyw ddogfen.

Taflen UCAC: [Asiantaethau Athrawon](#)